# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 26 Mehefin 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(74)v4

**1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog (60 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y cwestiynau

**2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**
Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3. Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Lansio'r Ymgynghoriad ar Ddiwygio'r Fframwaith Deddfwriaethol ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig (30 munud)**

**4. Datganiad gan y Cwnsler Cyffredinol: Hygyrchedd i Gyfreithiau Cymru a Datblygu Llyfr Statud i Gymru – y wybodaeth ddiweddaraf (30 munud)**

**5. Rheoliadau Seibiannau i Ofalwyr Plant Anabl (Cymru) 2012 (15 munud)**

**NDM5019 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Seibiannau i Ofalwyr Plant Anabl (Cymru) 2012 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Mai 2012.

**Dogfennau Ategol**
Rheoliadau Seibiannau i Ofalwyr Plant Anabl (Cymru) 2012
Memorandwm Esboniadol – (Saesneg yn unig)
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol – dim pwyntiau

adrodd

**6. Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Cyllid Llywodraeth Leol (15 munud)**

**NDM5002 Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai darpariaethau'r Bil Cyllid Llywodraeth Leol i'r graddau y meant yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael eu hystyried gan Senedd y DU.

Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Mai 2012 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(iii).

**Dogfennau Ategol**
I weld copi o'r Bill Cyllid Llywodraeth Leol ewch i:
http://services.parliament.uk/bills/2012-13/localgovernmentfinance.html
Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol Adroddiad

**7. Dadl ar Ddiwygio Gwasanaethau Cyhoeddus (60 munud)**

**NDM5018 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Agenda Diwygio'r Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y pwysigrwydd bod Awdurdodau Lleol yn ymgysylltu â'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i hybu ymhellach y broses o gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus cynaliadwy, effeithlon ac o ansawdd, sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr ledled Cymru.

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y manteision o symleiddio gwasanaethau cyhoeddus o dan un cynllun integredig, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau nad yw darpariaeth gwasanaeth yn cael ei lleihau na'i hisraddio drwy'r broses hon.

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gydnabod pwysigrwydd tryloywder ac atebolrwydd ym mhob agwedd ar gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

**Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i archwilio dulliau o gynyddu hyder y cyhoedd yng nghyswllt cyflenwi holl ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus Cymru.

**Gwelliant 5 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i leihau nifer y grantiau sydd wedi'u neilltuo ac i drosglwyddo'r cyllid hwn i'r Grant Cymorth Refeniw ar gyfer awdurdodau lleol fel rhan o'i Hagenda Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus.

**Gwelliant 6 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y costau i gyflenwi'r Compact ar gyfer Newid yn cael eu talu gan Lywodraeth Cymru ac nid gan awdurdodau lleol.

**Gwelliant 7 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio tuag at sefydlu gwasanaeth cyhoeddus penodol i Gymru.

**Dogfen Ategol**
Compact ar gyfer Newid rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yng Nghymru

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 27 Mehefin 2012